






# Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004

## ADRODDIAD CRYNO

Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid – Adroddiad 2


DYSGU ac ADDYSGU CYMRU
ELWa
EDUCATION and LEARNING WALES

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004

# AROLWG CENEDLAETHOL O CHWECHED DOSBARTHIADAU YSGOLION CYMRU 2004

© ELWa Awst 2004. Cyhoeddwyd gan ELWa. Caniateir atgynhyrchu rhannau o'r cyhoeddiad hwn am resymau hyfforddiant neu addysgiadol nad yw yn fasnachol, ar yr amod na chamliwir y ffeithiau a chydnabyddir y ffynhonnell. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn ffurf electronig ar wefan ELWa www.elwa.org.uk

Rhif ISBN: 1-85949-240-1









Grŵp ymchwil NOP yw cangen y DU o NOP World, y nawfed o'r asiantaethau ymchwil mwyaf yn y byd.

Yn y DU cyflogir tua 600 o staff gan NOP sydd wedi'i rannu yn adrannau arbenigol. Mae'r tîm sy'n gweithio ar Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 yn rhan o'r adran sy'n arbenigo mewn Ymchwil Cymdeithasol a mae 20 o ymchwilwyr yn gweithio yn y maes hwn. Mae gan y tîm brofiad perthnasol o arolygon ymchwil cymdeithasol ar raddfa fawr ac o wneud ymchwil i fodlonrwydd cwsmeriaid.



# RHAGAIR Y CADEIRYDD gan Sheila Drury



**Mae ELWa'n cydnabod bod yn rhaid parhau i ddeall gofynion dysgwyr i wneud yn siwr eu bod yn ganolog i bopeth y maen nhw'n ei wneud os am weithredu'i hagenda uchelgeisiol i ddysgu ôl-16. Dyma pam ein bod yn cynnal Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid; mae'r rhaglen ymchwil eang hon yn mynd i helpu i hysbysu ein barn am anghenion a bodlonrwydd dysgwyr gyda'r addysg rydym yn ei hariannu. Bydd y wybodaeth yn hanfodol i alluogi ELWa a'i phartneriaid i ehangu'n barhaus yr amrywiaeth ac ansawdd y ddarpariaeth, yn ogystal ag ehangu cyfranogiad mewn dysgu.**

Mae Arolwg Cenedlaethol Chweched Dosbarthiadau Ysgolion yng Nghymru yn adeiladu ar ganlyniadau Arolwg Boddhad Dysgwyr yng Nghymru, oedd yn edrych ar farn dysgwyr mewn Addysg Bellach, Rhaglenni Dysgu yn y Gweithle ac Addysg Barhaus i Oedolion achrededig. Mae'r arolwg yma'n gam cychwynnol, ond arwyddocaol tuag at ehangu ein dealltwriaeth o ganfyddiad a safbwynt disgyblion dosbarthiadau chwech o'u profiad addysgol. Rydym wedi cael ymateb cadarnhaol gan ddosbarthiadau chwech ysgolion yn dymuno cymryd rhan yn yr ymchwil. Felly, roedd yn rhaid diwygio ein cynlluniau ar gyfer yr arolwg ar i fyny. O ganlyniad, mae'r adroddiad wedi'i seilio ar farn dros 5,700 o ddisgyblion.

Gofynnwyd i ddisgyblion y dosbarthiadau chwech am eu barn o'u disgwyliadau o fod mewn dosbarth chwech, a oedden nhw'n astudio gyda darparydd o'u dewis cyntaf ac wrth gwrs, lefelau eu cymhelliad presennol, unrhyw broblemau roedden nhw efallai wedi dod ar eu traws a'r boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu.

Yng nghanlyniadau'r arolwg gwelwyd lefelau boddhad gymharol uchel, ond roedden nhw hefyd yn amlygu meysydd i'w datblygu. Mae rhaglen o weithgareddau ar y gweill i ymgynghori ymhellach ar y canlyniadau hyn a hefyd ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Boddhad Dysgwyr, gyda'r sector dysgu, i allu ymchwilio i faterion allweddol a datblygu dulliau o rannu arferion gorau a gwella lefelau boddhad i bob dysgwr.

Wrth gynllunio a gweithredu'r gweithgaredd ymchwil, rydym wedi ymgynghori gyda nifer o bartneriaid allweddol, a hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth – yn enwedig cynrychiolwyr Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd ELWa a weithredodd fel grŵp llywio allanol i'r prosiect. Hoffwn hefyd ddiolch i NOP, a gyflawnodd y gwaith.

Yn fwyaf pwysig, hoffwn ddiolch i'r miloedd o ddisgyblion yn y dosbarthiadau chwech oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil, yn mynegi eu barn werthfawr fel ein bod yn gallu gwella dyfodol cyfleoedd dysgu er mwyn 'gallu elwa ar ddysgu' yng Nghymru.

**Sheila Drury** – Cadeirydd
Medi 2004

# BODDHAD CYFFREDINOL

‘FEL PRIF ELFEN STRATEGAETH YMCHWIL CWSMERIAID, ROEDD ELWa YN COMISIYNU PROSIECT YMCHWIL YMHLITH MYFYRWYR DOSBARTHIADAU CHWECH YSGOLION I ASESU LEFELAU BODDHAD GYDA’U PROFIADAU DYSGU.’

## Cyflwyniad a Chefndir

01 Cwsmeriaid ELWa yw’r holl ddysgwyr presennol a dysgwyr potensial y dyfodol – sef pob unigolyn, busnes a chymuned yng Nghymru. Mae’r ymchwil chweched dosbarth hwn yn ffurfio rhan o Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid ELWa sy’n rhan o’r ymgyrch cyffredinol o fewn ELWa i:

- annog polisi ar sail tystiolaeth a chynllunio galw ganolog
- ddod â’r “cwsmer” i ganol y llwyfan

02 Fel prif elfen Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid, roedd ELWa yn comisiynu prosiect ymchwil ymhlith myfyrwyr dosbarthiadau chwech ysgolion i asesu lefelau boddhad gyda’u profiadau dysgu. Roedd hwn yn gam cyntaf yn sicr tuag at ddeall y grŵp hwn o gwsmeriaid ac i gael ymateb positif ysgolion. Rhagwelir y bydd yn ddechrau ar ymrwymiad tymor hwy i ddeall ac ymateb i farn disgyblion dosbarthiadau chwech am eu profiadau dysgu.

03 Lluniwyd yr arolwg i adeiladu ar Arolwg Cenedlaethol Boddhad Dysgwyr yng Nghymru (NLSSW) 2003 oedd yn cyfweld tua 6,200 o ddysgwyr mewn rhaglenni Addysg Bellach (FE), Addysg Barhaus i Oedolion (ACE), a Dysgu yn y Gweithle (WBL). Nid oedd myfyrwyr dosbarthiadau chwech wedi’u cynnwys yn yr arolwg cyffredinol cyntaf hwn oherwydd ystyriwyd nad oedd y fethodoleg sef arolwg ffôn yn addas ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

## Methodoleg


04 Ysgrifennwyd at benaethiaid holl ddosbarthiadau chwech ysgolion sy’n cael eu hariannu gan ELWa a’u gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Roedd ELWa yn monitro’r ymatebion ac anfonwyd rhestr o’r ysgolion oedd â diddordeb at NOP.

05 Cysylltwyd a recriwtiwyd ysgolion i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws gan sicrhau bod ystod eang o sgorau o’r Mynegai Lluo-Amddifadedd wedi’u cynnwys a bod ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnwys yn y pedwar rhanbarth. Gofynnwyd i bob ysgol oedd yn cymryd rhan yn y grwpiau ffocws i ddosbarthu holiadur i’w gwblhau gan ddisgyblion Blynyddoedd 12 ac 13 eu hysgolion. Hefyd, gwahoddwyd yr ysgolion hynny oedd wedi dangos diddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymchwil ond nad oedd yn ymwneud â’r grwpiau ffocws, i gymryd rhan yn elfen hunan-gwblhau meintiol yr arolwg.

06 Mae’r pynciau yn yr Arolwg Dosbarthiadau Chwech Ysgolion yn gorgyffwrdd gyda’r NLSSW a gynhaliwyd gan NOP yn 2003 ar ran ELWa. Lluniwyd y gorgyffwrdd hwn i mewn i’r broses i sicrhau gallu cymharu’r canlyniadau. Fodd bynnag, defnyddiwyd gwahanol fethodolegau ar gyfer y ddau arolwg. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth gymharu’n uniongyrchol.

## Boddhad Cyffredinol

07 Mae’n galonogol iawn bod 85% o fyfyrwyr dosbarthiadau chwech ysgolion wedi mynegi








rhyw gymaint o foddhad gyda'u profiad dysgu cyffredinol. Yn wir, roedd bron i hanner y myfyrwyr (45%) yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn yn gyffredinol. Dim ond lleiafrif bychan iawn o fyfyrwyr (6%) oedd yn dweud nad oedden nhw'n fodlon.

**08** Roedd cymharu gydag NLSSW yn dangos bod lefelau boddhad gyda'r profiad dysgu yn is mewn myfyrwyr dosbarthiadau chwech ysgolion nag ymhlith pobl ifanc 16 i 18 oed mewn Addysg Bellach neu WBL (lle roedd saith o bob deg ymhob grŵp yn disgrifio'u hunain fel hynod fodlon neu'n fodlon iawn).

**09** Roedd y boddhad yn amrywio yn ôl y lleoliad ac yn ôl yr iaith ddysgu. Felly, roedd 40% o fyfyrwyr dosbarthiadau chwech yn Ne Ddwyrain Cymru yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn o gymharu â 46% neu fwy mewn ardaloedd eraill. Roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol na'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i ddisgrifio'u hunain fel rhai oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn (51% yn erbyn 43%).

**10** A barnu o'r ymgyrch ansoddol, roedd prif feysydd anfoddhâd yn ymwneud â disgwyliadau ffug ynglŷn â'r rhyddid y byddai myfyrwyr yn ei gael, maint y gwaith y byddai'n rhaid iddyn nhw ei wneud a'r modd y byddai'r cyrsiau'n cael eu dysgu.

**11** Tra bod y mwyafrif o'r myfyrwyr (ychydig o dan 90%) yn ymddangos fel petai ganddyn nhw ddisgwyliadau cywir am safon y gwaith a maint y gwaith y byddai'n rhaid iddyn nhw ei wneud, nid oedd cyfran fechan ond arwyddocaol ohonyn nhw'n meddwl hyn. Eu prif broblemau oedd addasu i'r lefel uwch o waith a ddisgwylid a cheisio cwblhau gwaith ar gyfer gwahanol ddyddiadau cau. Roedd chwarter y myfyrwyr yn teimlo nad oedd y math o ddysgu'n cyflawni eu disgwyliadau. Pan nad oedd y profiadau'n cyflawni disgwyliadau, roedd hyn yn ymddangos fel petai hyn yn bennaf oherwydd y cydbwysedd rhwng disgwyl i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain a hefyd cynnal strwythur cefnogi da.

## Gwneud y Penderfyniad

**12** Roedd y ffaith bod myfyriwr yn cael ei ddewis/dewis cyntaf o ddarparydd addysg a chwrs yn cael effaith ar foddhad cyffredinol gyda'r profiad o ddysgu. Felly, mae'n ddarganfyddiad positif bod 73% o fyfyrwyr yn astudio yn eu dewis sefydliad tra bo 77% yn astudio eu cyrsiau dewisol (h.y. pwnc a chymhwyster). Yn achos y dewis o ddarparydd, nid oedd lleiafrif sylweddol o fyfyrwyr dosbarthiadau chwech wedi ystyried unrhyw opsiwn arall ac roedd hyn yn fwy tebygol o fod yr achos ymhlith myfyrwyr dosbarthiadau chwech yn hytrach na dysgwyr 16 i 18 oed Addysg Bellach (18% yn erbyn 3%). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod cynefindra yn bwysig wrth ddewis pa ddosbarth chwech i fynd iddo. Dywedodd 85% o fyfyrwyr mai'r rheswm dros ddewis eu dosbarth chwech oedd eu bod yn mynychu'r ysgol yn barod.

## ANSAWDD Y DYSGU

'ROEDD Y BODDHAD CYFFREDINOL GYDA'R ADDYSGU'N GYMHAROL UCHEL GYDA HANNER Y MYFYRWYR YN DWEUD EU BOD NAILL AI'N HYNOD FODLON NEU'N FODLON IAWN.'

**13** Roedd grŵp blwyddyn, maint y dosbarth chwech ac ardal yn ddylanwadol yn y dewis. Roedd myfyrwyr Blwyddyn 12 ychydig yn fwy tebygol na'r rhai ym Mlwyddyn 13 o ddweud eu bod yn mynychu'r darparydd o'u dewis cyntaf. Roedd myfyrwyr mewn ysgolion mwy hefyd yn fwy tebygol o fod yn astudio gyda'u darparydd o'u dewis cyntaf. Roedd myfyrwyr yng Nghanolbarth Cymru yn llai tebygol na myfyrwyr eraill o fod wedi cael darparydd o'u dewis cyntaf na'u pynciau.

**14** Y prif resymau dros beidio ag astudio'u dewis cyntaf o gyrsiau oedd gwrthdaro ar yr amserlen (45%), dim cyrsiau o'u dewis yn cael eu darparu yn eu hysgolion (34%) a chyngor gan athrawon i beidio â dilyn eu dewis cyntaf (13%).

**15** Roedd myfyrwyr yn fwy tebygol o fod wedi gofyn am gyngor am yr hyn i'w astudio (58%) na lle i astudio (34%), er nad oedd 27% o fyfyrwyr wedi gofyn am gyngor ar un o'r ddau. Prif ffynonellau cyngor oedd athrawon yn yr ysgolion (70%), cynghorwyr Gyrfau Cymru yn ac oddi allan i'r ysgol (69%) a rhieni/aelodau eraill y teulu (65%).

**16** Y darlun cyffredinol sy'n ymddangos o'r ymchwil ansoddol oedd bod dewisiadau nifer o fyfyrwyr ar ddiwedd Blwyddyn 11 ynglŷn â lle i astudio wedi bod braidd yn awtomatig gan fod y mwyafrif wedi aros ymlaen yn yr un ysgol. Roedd hyn yn golygu eu bod efallai'n gwneud llai o ymchwil i'w penderfyniad nag y bydden nhw wedi'i wneud petaen nhw'n ystyried newid darparydd. Byddai'r dewis o gwrs yn fwy tebygol o gael ei ddylanwadu gan enw da athrawon y pwnc.

**17** Roedd nifer o'r myfyrwyr oedd yn gofyn am gyngor gan gynghorwyr yn teimlo nad oedd wedi'i deilwrio'n ddigonol ar eu cyfer hwy fel unigolion a'u bod yn cael y 'llinell' safonol, neu'n waeth bydd, gyngor rhagfarnllyd. Roedd hyn yn siomedig i'r rhai oedd angen cymorth go iawn i ddatblygu eu meddwl eu hunain am y dewis o gyrsiau ar ôl Blwyddyn 11 a dewis o yrfa ar ôl cwblhau Blwyddyn 13.

### Ansawdd y Dysgu

**18** Maint a lleoliad ysgol oedd y prif ffactorau oedd yn dylanwadu ar foddhad yr addysgu: roedd canlyniadau'n uwch mewn ysgolion yn y De Orllewin, mewn ardaloedd gwledig ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd hi'n amlwg bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng pob un o'r amrywiadau hyn.

**19** Roedd y boddhad cyffredinol gyda'r addysgu'n gymharol uchel gyda hanner y myfyrwyr yn dweud eu bod naill ai'n hynod fodlon neu'n fodlon iawn a bod 36% arall yn disgrifio'u hunain fel rhai eithaf bodlon.

**20** O edrych ar agweddau boddhad yn fwy manwl, y ffactorau oedd yn cael eu cyfrif uchaf oedd:

- gallu i egluro'r pwnc (90% yn dweud da iawn/eithaf da)
- gwneud defnydd da o amser gwersi (76% yn dweud da iawn/eithaf da)








- ansawdd ac argaeledd deunyddiau dysgu (74% yn dweud da iawn/eithaf da)

**21** Ymhlith rhai o'r ffactorau oedd yn cael eu cyfrif isaf oedd y rhai oedd yn ymwneud ag agweddau mwyaf unigol addysgu, yn arbennig 'eich deall a sut rydych chi'n hoffi cael eich dysgu' oedd yn cael eu cyfrif fel da iawn/eithaf da gan 61% a ffactorau'n ymwneud â chefnogaeth unigol ac ymateb (68% a 69% yn eu trefn).

**22** Amlygwyd y materion hyn yn yr ymchwil ansoddol lle roedd myfyrwyr yn cadarnhau bod yr athrawon gorau:

- yn sefydlu perthynas gyda myfyrwyr chweched dosbarth wedi'i adeiladu ar barch o'r ddwy ochr
- yn defnyddio'r berthynas hon i ddeall anghenion myfyrwyr ac amrywio dulliau addysgu yn unol â hyn gan gynnig er enghraifft, mwy o gyfleoedd i drafod a chyfranogi yn y dosbarth a darparu gwybodaeth mewn amryw o ddulliau e.e. ar ffurf diagramau yn hytrach na nodiadau'n unig
- yn dangos diddordeb go iawn yn eu pwnc ac yn dangos eu bod yn pryderu am sut roedd y myfyrwyr yn gwneud
- yn cydnabod bod rhai myfyrwyr angen cefnogaeth ac anogaeth bositif (ystyriwyd bod rhai athrawon yn rhy barod i ddibynnu ar wawdio a sarhau pan oedd rhai myfyrwyr yn ymdrechu)

**23** Roedd myfyrwyr yn gallu rhoi nifer o enghreifftiau o addysgu da, yn bennaf gan athrawon oedd yn rhoi egni i gyfathrebu eu pwnc a rhoi llawer o anogaeth bositif iddyn nhw. Iddyn nhw roedd yn ymddangos fel petai'n gorffwys gydag athrawon yn manteisio ar y cyfleoedd roedd dosbarth chwech yn eu cynnig o safbwynt cael amgylchedd addysg mwy hamddenol a dosbarthiadau llai i sefydlu perthynas ac i fod yn fwy hyblyg nad oedd yn bosibl yn yr ysgol iau. Er eu bod yn dweud hynny, roedden nhw'n ymwybodol iawn bod angen rhwyd diogelwch i'r rhai oedd yn ymdrechu gyda'r math o addysgu mewn chweched dosbarth ac yn teimlo mai'r ateb oedd mwy o gymorth un i un i'r unigolion hynny.

**24** Mewn nifer o'r grwpiau, teimlwyd bod yr athrawon iau yn well am amrywio eu dulliau dysgu na'r rhai hŷn.

**25** Mae'r grid isod yn dangos gwahanol elfennau dysgu gan ddangos pa mor bwysig yw'r rhain i sicrhau boddhad gyda'r ansawdd addysgu a sut mae dysgwyr yn ystyried perfformiad ym mhob ffactor. Felly, mae'r chwarter chwith uchaf (y chwarter Gweithredu) yn dangos i ni'r ffactorau hyn sy'n gymharol uchel o safbwynt pwysigrwydd ond sy'n cael eu cyfrif yn gymharol isel o safbwynt perfformiad.


## Problemau a Symbyliad

**26** Roedd tua 8 i 10 o fyfyrwyr yn cael problemau. Yr un broblem fwyaf y soniwyd amdani gan 57% o'r rhai oedd yn cael problemau, oedd cynnal y symbyliad. Yr un fwyaf cyffredin arall y soniwyd amdani gan 37% oedd delio â safon y gwaith. Roedd hyn yn bennaf oherwydd yr hyn yr oedd rhai yn ei gweld fel y 'naid' rhwng lefel TGAU a lefel A.

# PROBLEMAU A SYMBYLIAD

‘YR UN BROBLEM FWYAF Y SONIWYD AMDANI GAN 57% O’R RHAI OEDD YN CAEL PROBLEMAU, OEDD CYNNAL Y SYMBYLIAD.’

## Siart 1 Blaenoriaethau Gweithredu – Boddhad gydag Ansawdd Addysgu o fewn Dosbarthiadau Chwech




Nodwch: Mae'r echel ar y grid yma wedi'i ffurfio ar y sgorau a gafwyd. Felly nid ydynt yn cychwyn ar sero. Nid oes sgorau boddhad ar gyfartaledd sy'n is na 3.6 allan o 10 a dim sgorau pwysigrwydd ar gyfartaledd sy'n is na 4.

### Targedau gweithredu

Mae’r ffactorau sydd o fewn neu ar gwsp y chwarter gweithredu yn dargedau gweithredu ac yn cynnwys:

- gwneud pynciau’n ddiddorol ac yn bleserus
- eich deall a sut rydych chi’n mwynhau dysgu
- gwrando ar eich gofynion
- y gefnogaeth y maen nhw’n ei rhoi i chi

### Targedau gweithredu

Dylai targedu gweithredu i gynyddu’r boddhad yn y meysydd hyn helpu i godi lefelau boddhad cyffredinol myfyrwyr gydag ansawdd yr addysgu. Yr agwedd o addysgu a fyddai’n elwa o hybu parhaus yw (chwarter uchaf ar y dde):

- y gallu i egluro’r pwnc







**27** Roedd ychydig dros chwarter o'r myfyrwyr yn disgrifio eu hunain fel rhai 'nad oedd yn frwdfrydig iawn' neu 'ddim yn frwdfrydig o gwbl'. Roedd myfyrwyr gwrywaidd yn llai brwdfrydig na'r rhai benywaidd (29% yn erbyn 23%) ac roedd tua trydedd ran o'r rhai oedd yn methu â chael eu dewis cyntaf o ddarparydd neu gwrs, yn disgrifio'u hunain fel rhai nad oedd yn frwdfrydig. Roedd y lefelau brwdfrydedd ychydig yn uwch mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (22% heb fod yn frwdfrydig yn erbyn 27% yn eu trefn).

**28** Roedd myfyrwyr brwdfrydig yn dweud bod hyn oherwydd eu hawydd cryf i wneud yn dda naill ai'n gyffredinol neu oherwydd bod ganddynt nod penodol, fel prifysgol (nodwyd yr olaf yn fwy gan y rhai ym Mlwyddyn 13 (21%) na gan y rhai ym Mlwyddyn 12 (6%)). Roedd symbyliad yn deillio hefyd oddi wrth y rhai o'u cwmpas, pobl roedden nhw'n weld oedd yn gwneud yn dda a'r rhai oedd yn cael eu gweld fel rhai oedd yn gwneud yn wael. O'r gwaith ansoddol, roedd yn ymddangos bod symbyliad i gyflawni gwaith yn deillio'n rhannol o'r anogaeth roedden nhw'n ei chael ac yn rhannol o ofn methu. Gallai diffyg symbyliad ddeillio o raddau gwael ac o bwysedd a dyfnder annisgwyl gwaith yn y chweched dosbarth.

## Dysgu Cyfrwng Cymraeg

**29** Roedd 4% o'r myfyrwyr yn nodi bod eu holl addysg drwy gyfrwng y Gymraeg tra bod degfed ran arall (8%) yn dweud bod dros hanner drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif llethol o fyfyrwyr (75%) yn dweud nad oedd dim o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**30** Roedd myfyrwyr yn fwy tebygol o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion llai ac yng Ngogledd Cymru.

**31** Roedd cyfrannau tebyg o fyfyrwyr gwrywaidd a benywaidd yn nodi dymuniad i'w holl neu i fwyafrif eu haddysg fod drwy gyfrwng y Gymraeg (tua 10%). Roedd myfyrwyr yn yr ardaloedd mwy gwledig yn fwy tebygol o nodi dymuniad i gael ei holl neu fwyafrif eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (17% yn erbyn 10%).

**32** O'r myfyrwyr hynny oedd yn nodi bod eu 'holl' wersi'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd pedwar o bob deg (38%) yn hapus gyda chydbwysedd eu haddysg ond dywedodd ychydig o dan hanner (47%) y bydden nhw'n dymuno i'w holl addysg neu i fwy o'u haddysg fod drwy'r Gymraeg tra bod 12% eisiau eu holl neu fwy o'u haddysg fod drwy gyfrwng y Saesneg. Wrth i'r gyfran o wersi a ddysgwyd yn y Gymraeg ostwng, felly hefyd y gyfran o fyfyrwyr oedd yn nodi dymuniad i'w holl addysg neu i fwy o'u haddysg fod yn y Gymraeg.

# CASGLIADAU

“MAE TENSIYNAU RHWNG CYNNIG ANNIBYNIAETH A PHARCH Y MAE MYFYRWYR YN EU CEISIO I'R UNIGOLION A CHYNNIG Y GEFNOGAETH A'R ANOGAETH Y MAEN NHW EU HANGEN.”

## 33 Casgliadau

Roedd nifer o’r themâu oedd yn ymddangos o’r ymchwil hwn wedi’i seilio ar y ffaith bod y grŵp hwn o bobl ifanc 16 i 18 oed yn y broses o wneud trosiant a bod tensiynau rhwng cynnig annibyniaeth a pharch y maen nhw’n eu ceisio i’r unigolion a chynnig y gefnogaeth a’r anogaeth y maen nhw eu hangen. Mae’r darlun sy’n ymddangos yn gyffredinol bositif.

**34** Lle mae’r ddarpariaeth yn methu, fodd bynnag, y teimlad yw bod hwn oherwydd diffyg cydnabod anghenion unigolyn, er enghraifft, wrth gynnig cyngor neu ddelio â rhywun sy’n ymdrechu i gyflawni safon y gwaith. Roedd hyn i’w weld hefyd yn y dulliau dysgu lle’r oedd myfyrwyr yn ddiamynedd gydag athrawon sy’n defnyddio’r dull ‘sialc a siarad’ yn unig ac yn methu â chynnig cyfleoedd i gyfranogi.

**35** Ar un lefel, roedd myfyrwyr yn ymddangos fel pobl oedd yn chwilio am y cyfle i ddangos eu haeddfedrwydd a’u diddordeb cynyddol yn y pwnc. Ar lefel arall, maen nhw angen llawer iawn o gyfeirio ac ymateb positif er mwyn cynnal lefelau eu symbyliad gan adlewyrchu’r trosiant y maen nhw’n ei wneud rhwng bod yn blentyn ysgol ac oedolyn.

## Mae’r adroddiad hwn yn elfen o Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid ELWa. Bydd adroddiadau pellach o’r Strategaeth yn cynnwys:

- **Arolwg Cenedlaethol i Fodlonrwydd Dysgwyr yng Nghymru** – arolwg cynhwysfawr o fodlonrwydd dysgwyr dros 16 oed gyda’u profiadau dysgu, gan gynnwys unigolion mewn Addysg Bellach, rhaglenni Dysgu yn y Gweithle ac Addysg achrededig Parhaol i Oedolion.
- **Astudiaethau Enghreifftiol o Gyflogwyr** – dadansoddiad o farn ac agweddau cyflogwyr at ddysgu yn y gweithle.
- **Panel Unigolion** – Ymchwiliad i mewn i agweddau at ddysgu. Defnyddir y canlyniadau i gynhyrchu segmentiad o unigolion ar draws Cymru mewn perthynas â’u hagweddau a’u gweithgareddau mewn perthynas â dysgu.
- **Arolwg ar Ddysgwyr sy’n gadael rhaglenni Dysgu yn y Gweithle (Peilot)** – Archwiliad o farn Dysgwyr yn y Gweithle sydd wedi gadael neu gyflawni rhaglen ‘Dysgu yn y Gweithle’ o fewn y 3-6 mis diwethaf.

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan www.petergill.com 128280904